**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JH-0452-25 / JH/PO/174/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mawrth, yn gofyn am ragor o wybodaeth am ein safbwynt ynghylch cymal 53 y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo. Rwyf hefyd wedi ymateb i lythyr ar wahân gan Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y Memorandwm hwn.

**Pam nad ydych yn ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 53 o'r Bil? Mae cymal 53 yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ganlyniadol. Gall y rheoliadau hyn ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu deddfiadau. Mae cymal 53(3)(c) yn datgan bod "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn Mesur neu Ddeddf Senedd Cymru, neu wedi'i gynnwys mewn offeryn a wneir o dan Fesur neu Ddeddf Senedd Cymru.**

Nid oedd cymal 53 wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan ei fod yn bŵer cul sydd wedi'i gyfyngu i wneud diwygiadau gofynnol i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad uniongyrchol i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym. Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn perthynas â phynciau a gedwir yn ôl, gan fod y rhan fwyaf o'r Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol.

Gobeithio y bydd yr ymateb hwn o gymorth i'r Pwyllgor wrth ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip